**Glo a'r Dociau – Nodiadau'r Athro**

Heddiw rydym am edrych ar ddiwydiant yn Ne Cymru ac un diwydiant pwysig yn benodol: y diwydiant glo.

<u>Trafodaeth Gychwynnol:</u>

- Pwy all ddweud wrtha i ar gyfer beth mae glo'n cael ei ddefnyddio?

Mae'n cael ei losgi, cael ei ddefnyddio i wneud tanau, mae'n fath o danwydd, ayb

- Oes unrhyw un yn gwybod o ble mae glo'n dod?

Dan ddaear. Mae wedi ei wneud o blanhigion wedi marw sy'n cael eu claddu dan y ddaear gan haenau o faw a chreigiau. Mae'n cymryd miliynau o flynyddoedd i droi'n lo.

- Sut ydych chi'n credu lwyddon nhw i dynnu'r glo allan o'r ddaear?

Pyllau glo (sef twneli neu dyllau ddefnyddir i gael at y glo) a glowyr ( y bobl sy'n gweithio yn y pyllau ac yn cloddio'r glo).

<u>Glowyr (sleidiau 2-8)</u>

Roedd llawer o byllau glo yn Ne Cymru, oedd yn golygu bod angen llawer o bobl i weithio ynddyn nhw fel glowyr.

**Sleidiau 2 – 3** Manylion o'r cyfrifiad yw'r rhain.

- Beth yw cyfrifiad?

Cyfrifiad yw pan fydd y llywodraeth yn cofnodi manylion pawb, fel oed, swydd a faint o bobl sy'n byw ym mhob tŷ.

Mae'r cyfrifiad yma yn dangos y bobl oedd yn byw ar stryd yng Nghwm Clydach ym mhen uchaf Cwm Rhondda.

- Fedrwch chi weld pa swyddi oedd ganddyn nhw?

Un ai glowyr (weithiau wedi ei nodi fel Colier), neu blant gafodd eu cofnodi fel sgoloriaid (disgyblion ysgol).

- Fedrwch chi ddod o hyd i Edward John Davies?

Sleid 3, 3ydd enw i lawr

- Faint oedd ei oed?

13 blwydd oed

- Beth oedd ei swydd?

Glöwr

**Sleid 4** – Edrychwch ar y llun yma o grŵp o lowyr.

- Faint gredwch chi yw eu hoed nhw?

Cymysgedd oedrannau, rhai yn eithaf hen a rhai yn ifanc iawn ac a fyddai mewn ysgol heddiw

- Sut gredwch chi fyddai hi wedi bod i weithio dan ddaear?

Byddai wedi bod yn dywyll, oer, dim lle i symud ayb

**Sleidiau 5 – 8** - Edrychwch ar y lluniau hyn o lowyr dan ddaear.

- Ydych chi'n credu eu bod nhw'n gallu sefyll ar eu traed?

Mae sleid 5 a 6 yn dangos pa mor gyfyng oedd hi yno.

- Ydych chi'n credu eu bod nhw yn baeddu tra'n gweithio dan ddaear?

Oedden, mae **sleidiau 7 ac 8** yn dangos dillad brwnt yn cael eu golchi a dyn yn ymolchi ar ôl dod adref o'r pwll.

<u>Llygredd o'r pyllau glo (Sleid 9)</u>

**Sleid 9** – Edrychwch ar y llun hwn o bwll glo (llun o Gwm Clydach yn dangos y pyllau glo)

- Sut fath o fywyd oedd byw gerllaw pwll glo?

Byddai wedi bod yn swnllyd, brwnt a drewllyd. Byddai'r holl beiriannau roedden nhw'n eu defnyddio wedi creu llawer o lygredd.

<u>Cario glo (Sleidiau 10-16)</u>

- Sut ydych chi'n credu bod y glo yn cyrraedd o'r pyllau i'r tai a'r ffatrïoedd oedd ei angen?

**Sleid 10** – Edrychwch ar y llun – mae cliw i'w weld yma (rheilffordd)

- Pa fath o drenau oedden nhw'n eu defnyddio?

**Sleid 11** – Trenau stêm

- Pa fath o danwydd oedd y trenau yma’n ei ddefnyddio?

Glo

- Beth oedden nhw’n ei ddefnyddio i gludo’r glo?

**Sleidiau 12 – 14** yn dangos llun o wagenni a rhywfaint o hysbysebion ar eu cyfer. Byddai’r wagenni hyn wedi eu llenwi â glo a’u cysylltu i’r trenau stem.

- Ai dim ond rheilffyrdd ddefnyddion nhw?

Roedden nhw hefyd yn defnyddio tramiau a chamlesi.

**Sleid 15** yn dangos bad ar Gamlas Morgannwg.

- Beth ddigwyddodd i’r glo a gafodd ei gloddio o’r pyllau glo yn Ne Cymru?

Cafodd ei ddefnyddio mewn tanau yng Nghymru, y DU a ledled y byd.

- I ba wledydd oedd glo o Dde Cymru yn mynd?

**Sleid 16** – Blwyddlyfr Caerdydd 1921 yn dangos rhestr o wledydd (fel Sweden, yr Almaen, Sbaen, yr Eidal, Groeg, Brasil, Yr Aifft)

- Sut lwyddodd i fynd dros y byd?

Ar long

- O ble roedd y llongau yma yn hwylio?

Dociau Caerdydd

Rydym am fwrw golwg nawr ar hanes Dociau Caerdydd

<u>Bae Cardiff: ddoe a heddiw (Sleidiau 17 – 18)</u>

- Ydych chi'n gwybod lle mae dociau Caerdydd?

Heddiw defnyddir yr enw Bae Caerdydd am yr ardal yma

- Beth sy'n digwydd ym Mae Caerdydd nawr? (Gallwch nodi rhai o'r atebion ar y bwrdd i'w ddychwelyd atynt ar y diwedd)

- Beth ydych chi’n credu oedd yn digwydd ym Mae Caerdydd yn y gorffennol? (Eto, nodwch rai o’r ymatebion ar y bwrdd)

Rydym am edrych ar rai dogfennau nawr fydd yn ein cynorthwyo i weld os ydych chi’n gywir.

Edrychwch ar fap o Fae Caerdydd heddiw

- Fedrwch chi weld llefydd cyfarwydd ar y map?

Gallech edrych am Techniquest, Canolfan Mileniwm Cymru, Pierhead, Senedd ayb

**Sleid 17** – Dyma fap cynharach o Fae Caerdydd, neu Ddociau Caerdydd fel roedd yr ardal yn arfer cael ei galw bryd hynny.

- Fedrwch chi weld llefydd cyfarwydd ar y map?

Does dim Techniquest, dim Cei’r Fôr-Forwyn, dim CMC, dim Senedd, Pierhead, ble mae’r Eglwys Norwyaidd?

**Sleid 18** – Dyma fap cynharach byth (map degwm) yn dangos plwyf y Santes Fair yng Nghaerdydd.  Roedd plwy’r Santes Fair yn dechrau wrth y castell ac yn ymestyn yr holl ffordd i’r Bae.

- Fedrwch chi weld llefydd cyfarwydd ar y map yma?

Mae’r fynedfa i’r doc ar ffurf siâp hirgrwn – basn hirgrwn.  Heddiw, yr enw ar y rhan yma o’r Bae yw Plass Roald Dahl.

<u>Busnes yn Nociau Caerdydd (sleidiau 19-20)</u>

**Sleid 19** – Dyma dudalen o gyfarwyddlyfr masnach.  Roedd Cyfarwyddlyfrau masnach yn rhestru’r holl fusnesau yn Nociau Caerdydd.

- Beth oedd pobl yn ei wneud gyda chyfarwyddiaduron masnach?

I ddod o hyd i fusnesau

- Sut mae pobl yn dod o hyd i fusnesau heddiw?

Falle drwy ddefnyddio Google, 118, y llyfr ffôn

Mae’r dudalen ar **sleid 20** yn dangos Sgwâr Mount Stuart

- Pam cafodd ei alw yn Sgwâr Mount Stewart?

Cafodd ei enwi ar ôl yr Ardalydd Bute, oedd hefyd yn cael ei adnabod fel Barwn Mount Stewart.

- Pwy oedd yr Ardalydd Bute?

Y Barwn Mount Stewart, yn cael ei adnabod hefyd fel Ardalydd Bute.  Fe adeiladodd lawer o Ddociau Caerdydd

- Pam ydych chi’n credu wnaeth e adeiladu Dociau Caerdydd?

Roedd e hefyd yn berchen ar byllau glo ac roedd angen gyrru'r glo ar longau ar draws y byd er mwyn ei werthu.

- Fedrwch chi feddwl am unrhyw strydoedd a llefydd eraill yng Nghaerdydd sydd wedi eu henwi ar ôl Ardalydd Bute?

Stryd Bute, Gorllewin Stryd Bute, Parc Bute, Butetown

- Pa fath o fusnesau alwch chi eu gweld ar y rhestr yma?

Enghreifftiau – Banc Lloyds, cwmnïau glo, peiriannydd, cwmni yswiriant a gwerthwyr llongau

**Sleid 20 –** Roedd gan gyfarwyddiaduron masnach hysbysebion ynddyn nhw.  Dyma hysbyseb ar gyfer cwmni o'r enw Barretts

- Beth oedden nhw yn ei wneud?

Roedden nhw yn adeiladu llongau

- Yn lle roedd eu swyddfa?

Sgwâr Mount Stewart

<u>Adeiladau (Sleidiau 21-26)</u>

**Sleidiau 21-22** - Dyma rywfaint o luniau o adeiladau yn Nociau Caerdydd.

- Ydych chi'n adnabod yr adeiladau hyn?

Sleid 21 = Pierhead, sleid 22 = yr Eglwys Norwyaidd

**Sleid 23** – Dyma lun o un o'r adeiladau pwysicaf yn Nociau Caerdydd, sydd dal yna heddiw.

- Oes unrhyw un yn gwybod ei enw?

Y Gyfnewidfa Lo

**Sleid 24** – Dyma'r cynlluniau adeiladu ar gyfer y Gyfnewidfa Lo

- Beth yw cynlluniau adeiladu?  Pam bod pobl eu hangen nhw?

Dyluniadau i raddfa arbennig yw cynlluniau adeiladu sy'n dangos sut mae adeilad yn edrych neu y bydd yn edrych. Roedd pobl yn eu defnyddio i wneud adeiladau yn ôl y siâp a'r maint cywir ac ar ôl gorffen yr adeiladu, roedd modd defnyddio'r cynlluniau i ddangos beth oedd y tu mewn.

Edrychwch yn fanwl ar y cynlluniau.

- Beth maen nhw yn ei ddweud wrthym am yr hyn oedd yn digwydd yn y Gyfnewidfa Lo?

Mae llawer o swyddfeydd felly mae'n rhaid ei fod wedi bod yn lle ar gyfer busnes.

**Sleid 25 -** Dyma luniau rhai o'r bobl y tu mewn i'r Gyfnewidfa Lo.

- Pwy ydych chi'n feddwl oedden nhw? Beth ydych chi'n gredu oedden nhw yn ei wneud?

Dynion busnes ydyn nhw. Maen nhw yn prynu a gwerthu glo.

**Sleid 26** yn dangos faint o lo oedd yn cael ei allforio o Gaerdydd rhwng 1880-1893. Roedd y Gyfnewidfa Lo yn bwysig iawn oherwydd y prynwyd a gwerthwyd cymaint o lo yng Nghaerdydd – mwy nag unman arall ym Mhrydain. Yma hefyd y cafodd y ddêl gyntaf gwerth miliwn o bunnoedd ei tharo.

<u>Pobl yn Nociau Caerdydd (sleidiau 27-28)</u>

- Pwy ydych chi'n credu oedd yn byw yn Nociau Caerdydd yn y gorffennol?

Roedd llawer o bobl fusnes yn byw yno, hefyd morwyr a phobl oedd yn gweithio ar y llongau megis adeiladwyr llongau.

**Sleidiau 27-28 –** Rydym yn mynd i edrych ar gyfrifiad o 1911 i ddarganfod pwy oedd yn byw yn Nociau Caerdydd bryd hynny.

- Allwch chi weld pa swyddi oedden nhw yn eu gwneud? Ydych chi'n gwybod beth oedd y swyddi hyn?

Taniwr (rhoi'r glo ym moiler y llong), Donkeyman (gweithio yn ystafell yr injan, fel arfer gyda gofal am y peiriant codi), Saer, Morwr

- Allwch chi weld o ba le roedd y bobl yn dod?

Roedden nhw'n dod o bedwar ban byd – Twrci, Llundain, Ciprys, Caerdydd, Ffindir, Sweden, Rwsia ac Awstralia.

- Pam daeth y bobl yma i fyw yn Nociau Caerdydd?

Fe ddaethon nhw i weithio ar y llongau.

<u>Morgludiant (Sleidiau 29-30)</u>

**Sleid 29** – Cytundeb criw yw hwn Roedd yn rhaid i forwyr arwyddo hwn wrth ddechrau gweithio ar long.

- Fedrwch chi weld o ble roedd y morwyr yn dod?

Hefyd yn dod o bedwar ban byd (llefydd fel Groeg, Manceinion, Ynys Malta a Barbados)

- Sut olwg oedd ar longau 100 mlynedd yn ôl?

Roedd mastiau mawr ganddynt a hwyliau tebyg i'r ffilm Pirates of the Caribbean (edrych ar sleid 30 i weld enghraifft)

**Sleid 30** – Mae'r llun yma yn dangos hen longau yn Nociau Caerdydd

- Yn y gorffennol, roedd pobl yn dweud y gallech chi groesi ar draws dociau Caerdydd heb wlychu'ch traed. Sut gredwch chi eu bod nhw'n gwneud hyn?

Roedd y llongau mor agos i'w gilydd fel bod modd cerdded yn syth o un llong i'r llall ac felly ymlaen.

- Beth sydd yn y dŵr ym Mae Caerdydd nawr?

Mae yna longau mwy cyfoes, llongau hwylio, llongau pleser, cychod cyflym, peiriannau sgïo jet, tacsi dŵr a rhywfaint o olion o'r gorffennol gan gynnwys hen byst angorfeydd (yn cael eu hadnabod fel dolffiniaid)

<u>Syniadau sesiwn drafod:</u>

- Cyn edrych ar y dogfennau fe wnaethon ni ysgrifennu rhai syniadau ar y bwrdd ynghylch yr hyn oedden ni'n ei gredu oedd wedi digwydd yn Nociau Caerdydd yn y gorffennol  Oedden ni'n gywir? Allwn ni ychwanegu unrhyw beth arall i'r rhestr ar y bwrdd?
- Dwedwch wrtha i am un peth newydd rydych wedi ei ddysgu heddiw
- Ceisiwch grynhoi yr hyn rydym wedi ei ddysgu i un frawddeg

<u>Gweithgaredd posib yn seiliedig ar y gweithdy hwn:</u>

- Gwnewch restr o'r holl ddulliau oedd yn gwneud gweithio mewn pwll glo yn beryglus. Beth gallech chi ei wneud i'w wneud yn fwy diogel?
- Defnyddiwch eich 5 synnwyr (cyffwrdd, blasu, arogli, gweld a chlywed) i ddisgrifio sut brofiad fyddai byw gerllaw pwll glo.
- Defnyddiwch sleidiau 28-30 i liwio map gwag gan ddangos y llefydd y daeth pobl ohonynt i weithio yn Nociau Caerdydd.
- Ysgrifennwch gerdyn post i ffrind yn dychmygu eich gwaith ar fwrdd llong ym Mae Caerdydd. Sut brofiad yw e? Beth yw eich swydd? I ble byddwch chi'n teithio a beth byddwch chi'n ei weld?